Cynllunio a monitro sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynllunio a monitro sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid.

Byddwch yn gallu creu cynlluniau sydd yn creu cydbwysedd rhwng y diben a fwriadwyd ar gyfer sefydlu a rheoli â’r cyfyngiadau â’r cyfleoedd cysylltiedig. Mae hefyd yn cynnwys dewis a gweithredu dulliau monitro â’r gallu i weithredu os nad yw sefydlu a rheoli yn gweithio.

Bydd angen i chi fod yn ymwybodol o'ch cyfyngiadau eich hun a chadarnhau eich bod yn bodloni'r cyfrifoldebau cyfreithiol perthnasol ar gyfer darparu dyletswydd gofal yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer y rheiny sydd yn cynllunio ac yn monitro sefydlu a rheoli poblogaeth anifeiliaid gwyllt neu anifeiliaid sydd i gael eu rhyddhau i'r gwyllt.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau diben, cwmpas ac amcanion sefydlu a rheoli poblogaeth anifeiliaid
2. nodi'r cyfyngiadau â’r cyfleoedd sydd yn berthnasol i sefydlu a rheoli poblogaeth anifeiliaid
3. datblygu cynlluniau sydd yn cyflawni cydbwysedd rhwng y diben a fwriadwyd â’r risg â’r cyfleoedd â’r cyfyngiadau
4. nodi a chael unrhyw ganiatâd, cydsyniadau neu drwyddedau angenrheidiol gan yr awdurdodau perthnasol fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth bresennol
5. nodi'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r cynlluniau a sefydlu argaeledd yr adnoddau hyn
6. creu cynlluniau sydd yn cynnwys y wybodaeth angenrheidiol ar gyfer eu gweithredu yn y safle penodedig
7. cyflwyno a chyfathrebu cynlluniau i bawb sydd yn gysylltiedig â'r cynllun, neu wedi eu heffeithio ganddo
8. dewis dulliau monitro sydd yn addas ar gyfer y cynlluniau sefydlu a rheoli ac ar gyfer y rheiny sydd yn gysylltiedig â'u gweithredu
9. monitro sefydlu a rheoli'r amlder gorau i werthuso cynnydd yn erbyn y cynllun a chymryd unrhyw gamau angenrheidiol
10. cadarnhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth leol a chenedlaethol, canllawiau a chodau ymarfer perthnasol
11. cadarnhau bod yr holl waith yn cael ei wneud yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogewlch perthnasol, gofynion asesu risg a pholisïau sefydliadol
12. cadarnhau bod cofnodion yn cael eu cynnal a'u storio fel sydd yn ofynnol gan y ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol
13. monitro a gwerthuso effeithiolrwydd sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid wrth fodloni'r canlyniad dymunol ynghylch y graddfeydd amser gofynnol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1.
y diben a fwriadwyd, cwmpas ac amcanion sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid ac effaith y gweithgaredd hwn ar yr amgylchedd cyfagos
2.
y dulliau ar gyfer nodi'r cyfleoedd â'r cyfyngiadau wrth sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid
3. y gofynion â'r ddeddfwriaeth berthasol yn ymwneud â sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid
4. y dulliau cynllunio â'r amgylchiadau pan maent yn berthnasol
5. yr amgylchiadau lle mae angen caniatâd neu drwyddedau a sut i wneud cais amdanynt a'u cael
6. y dulliau sydd ar gael ar gyfer asesu targedau twf poblogaeth anifeiliaid
7. y dulliau sydd ar gael ar gyfer cyfrifo maint a mathau'r cyfleusterau sydd yn ofynnol ar gyfer twf posibl poblogaeth anifeiliaid
8.
sut i ffurfio cynlluniau sydd yn bodloni'r amcanion, gan ystyried y cyfleoedd â'r cyfyngiadau
9.
sut i bennu'r adnoddau sydd yn ofynnol a sut i sicrhau eu bod ar gael yn y lleoliad ac ar yr adeg a gytunwyd
10. pwysigrwydd creu cynlluniau gwaith a manylebau a sut i wneud y rhain
11. pwysigrwydd parhau i gyfathrebu gyda'r gweithlu a phawb sydd yn gysylltiedig â'ch gwaith, neu wedi eu heffeithio ganddo
12. y ffactorau sydd yn effeithio ar sefydlu poblogaethau anifeiliaid a sut gellir rheoli'r rhain
13. y ffactorau sydd yn cynorthwyo twf anifeiliaid a sut gellir annog y rhain
14.
y dulliau sydd ar gael ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn y cynllun
15.
y camau y dylech eu cymryd os oes problemau yn gweithredu'r cynllun
16. eich cyfrifoldebau yn unol â'r ddeddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, codau ymarfer a pholisïau eich sefydliad
17. y cofnodion y mae angen eu cadw mewn perthynas â phoblogaethau anifeiliaid

a phwysigrwydd cwblhau'r rhain yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol

18. pwysigrwydd monitro hirdymor i bennu a yw sefydlu a rheoli wedi bod yn effeithiol yn cyflawni'r canlyniad dymunol, â'r dulliau o wneud hyn

19. pwysigrwydd rhannu gwybodaeth a phrofiadau gydag eraill yn unol â'r ddeddfwriaeth berthnasol a pholisïau sefydliadol

## Geirfa

**Mae cyfleoedd a chyfyngiadau yn cynnwys y canlynol:**

- cyfreithiol
- amgylcheddol
- cymdeithasol, diwydlliannol ac esthetig
- economaidd
- ffisegol
- sefydliadol
- amseru/tymoroldeb

LANAnC51

Cynllunio a monitro sefydlu a rheoli poblogaethau anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2020 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2025 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAnC66 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal anifeiliaid, Swyddog Cadwraeth |
| **Cyfres/Set** | Cadwraeth Amgylcheddol, Gofal a Lles Anifeiliaid |
| **Geiriau Allweddol** | anifeiliaid; gwyllt; poblogaeth |